Rhif: WG43615

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

## Rheoliadau drafft a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol (ALl) sefydlu cronfa ddata o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal

Dyddiad cyhoeddi: 29 Hydref 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-029-1

# Rheoliadau Cronfa Ddata Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 drafft a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 drafft

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad ar reoliadau drafft Llywodraeth Cymru a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol (ALl) sefydlu cronfa ddata o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:<br>Cydraddoldeb mewn Addysg<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd CF10 3NQ<br><br>@LlC_Addysg<br><br>Facebook/AddysgCymru |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn<br>www.llyw.cymru/addysg-a-sgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru – Ymgynghoriad ar Reoliadau Drafft<br>Cronfeydd data awdurdodau addysg lleol \| LLYW.CYMRU |

# Cynnwys

1. Cefndir
2. Yr ymgynghoriad
3. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gronfa ddata
5. Y camau nesaf

# 1. Cefndir

1.1 Ym mis Gorffennaf 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Addysg yn y cartref - canllawiau statudol i awdurdodau lleol a llawlyfr i addysgwyr yn y cartref. Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn gan amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn llywio gwaith datblygu pellach mewn perthynas â'r canllawiau statudol ar gyfer addysg yn y cartref, y llawlyfr i addysgwyr yn y cartref a'r cynigion ar y gronfa ddata.

1.2 Comisiynodd swyddogion Arad Research i ddadansoddi'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac i nodi'r negeseuon allweddol a oedd yn gysylltiedig â themâu penodol a chyflwyno'r canfyddiadau allweddol. Cyhoeddwyd yr adroddiad cryno yn deillio o hynny ym mis Rhagfyr 2019.

1.3 Bu'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn o gymorth wrth lywio'r cwestiynau a'r themâu i'w cynnwys mewn ymgynghoriad pellach ar reoliadau'r gronfa ddata a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad ar y gronfa ddata ac yn nodi'r negeseuon a'r themâu allweddol.

## 2. Yr ymgynghoriad

2.1. Lansiwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar reoliadau'r gronfa ddata ar 30 Ionawr 2020 a daeth i ben ar 13 Mai 2020. Ei ddiben oedd ceisio barn ar reoliadau drafft a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol (ALl) sefydlu cronfa ddata o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal.

2.2. O dan amgylchiadau arferol, byddai dadansoddiad ac adroddiad cryno wedi cael eu cyhoeddi o fewn 12 mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, oherwydd effaith ddigynsail pandemig COVID-19 ar adnoddau, ni fu'n bosibl gwneud hynny. Er mwyn sicrhau tryloywder, penderfynwyd cyhoeddi adroddiad interim o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u golygu'n briodol. Erbyn hyn, llwyddwyd i gynnal dadansoddiad llawn o'r ymgynghoriad ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canlyniadau.

2.3. Cynhaliwyd y prif ymgynghoriad ar-lein ac ar ffurf papur a derbyniwyd yr ymatebion drwy e-bost.

2.4. Roedd yn cynnwys 26 o brif gwestiynau gan ddefnyddio cyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig. Mae fformat y dadansoddiad o'r ymatebion yn adlewyrchu hyn.

2.5. Roedd y cwestiynau canlynol wedi'u cyfeirio at grwpiau penodol o randdeiliaid (ychwanegodd rhai o'r ymatebwyr o'r grwpiau eraill o randdeiliaid sylwadau hefyd):

- Cwestiynau 13 i 16 – Byrddau Iechyd Lleol
- Cwestiynau 17 i 19 – Ysgolion Annibynnol
- Cwestiynau 20 i 23 – Awdurdodau Lleol

2.6. Roedd y cwestiynau, a gafodd eu llywio gan ymgynghoriad blaenorol (gweler 1.2 uchod), yn ymdrin ag amrywiaeth o themâu, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a phreifatrwydd
- Adran 463A o Ddeddf Addysg 1996 mewn perthynas ag adnabod plant nad ydynt yn cael addysg addas
- Prosesau ac ystyriaethau sefydliadol (gan ganolbwyntio ar Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau), Ysgolion Annibynnol ac Awdurdodau Lleol)
- Nodweddion gwarchodedig
- Y Gymraeg

2.7. Cafodd ymatebwyr hefyd eu gwahodd i wneud unrhyw sylwadau ychwanegol nad oedd y cwestiynau eraill wedi ymdrin â nhw.

2.8. Ategwyd yr ymgynghoriad gan strategaeth gyfathrebu lle yr aeth swyddogion ati i annog unigolion i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy rwydweithiau a chyfarfodydd allweddol â rhanddeiliaid, trydariadau ar y cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiad ar wefan Llywodraeth Cymru.

2.9. Ceir rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.

# 3. Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

3.1. Cafwyd cyfanswm o 186 o ymatebion (141 ohonynt ar-lein (yr oedd 105 ohonynt wedi'u cwblhau'n llawn) a 45 ohonynt drwy e-bost ac ar ffurf papur). Roedd 18 o ymatebion gan sefydliadau a chyrff cynrychioliadol (Estyn; Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru; undebau athrawon; GMC; UNICEF; rhieni, gofalwyr, a phlant a phobl ifanc; a chyrff cenedlaethol eraill). Ymatebion gan unigolion oedd y gweddill.

3.2. Categoreiddiwyd yr ymatebion i saith grŵp rhanddeiliaid.

3.3. Ceir amrywiad sylweddol yn nifer yr ymatebion ym mhob grŵp rhanddeiliaid. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli unrhyw ddadansoddiad o'r gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol gategorïau o ymatebwyr.

3.4. Mae fformat y trosolwg yn ystyried nad oedd llawer o'r ymatebion o reidrwydd yn cydymffurfio â'r math o gwestiwn agored a chaeedig.

3.5. Yn debyg i'r ymgynghoriad blaenorol, ni ofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'n benodol a oeddent yn addysgwyr yn y cartref ond dewisodd rhai wneud hynny yn eu hymatebion. Mae'n debygol fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unigol hefyd, mewn gwirionedd, yn addysgwyr yn y cartref. O ganlyniad, ni ellid gwahanu'r rheini a oedd yn nodi eu hunain eu bod yn addysgwyr yn y cartref i greu categori penodol ar wahân.

| Categori | Nifer yr ymatebion | % |
|---|---|---|
| Unigolion (gan gynnwys addysgwyr yn y cartref) | 130 | 87.9 |
| Awdurdodau Lleol | 6 | 4.0 |
| Rhanddeiliaid addysg | 5 | 3.4 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 2 | 1.3 |
| Sector iechyd (ac eithrio Byrddau Iechyd Lleol) | 2 | 1.3 |
| Trydydd Sector | 2 | 1.3 |
| Sefydliadau addysg yn y cartref | 1 | 0.7 |

3.6. Roedd yr ymatebion a gafwyd drwy e-bost neu ar ffurf papur yn amrywio o ran strwythur, gan naill ai ddilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad yn agos a/neu roi sylwadau ar y rheoliadau drafft. Roedd yr ymatebion hefyd yn amrywio'n sylweddol o ran eu hyd ac o ran y sylwadau ategol a ddarparwyd. Ni wnaeth pob ymatebwr sylw ar bob cwestiwn a dewisodd rhai beidio ag ymateb i'r cwestiynau o gwbl.

3.7. Mae'r dadansoddiad o'r ymatebion yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad yn fras. Ym mhob achos, nodir y cwestiwn (a'r is-gwestiynau). Nodir nifer yr ymatebion a'r canrannau i gwestiynau caeedig (Cadarnhaol, Negyddol neu Niwtral/Dim sylw), lle y bo'n briodol. Dewisodd rhai ymatebwyr beidio ag ateb pob cwestiwn ac felly gall cyfanswm nifer yr ymatebwyr i bob cwestiwn amrywio.

3.8. Ar gyfer cwestiynau agored neu is-gwestiynau, nodir sampl fach o'r sylwadau sy'n nodweddiadol o'r ymatebion neu sy'n adlewyrchu'r themâu yn yr ymatebion.

**Cwestiwn 1**
Mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol ddatgelu i awdurdodau lleol (ALlau) y wybodaeth a restrir yn Atodlen 1 i'r rheoliadau. Bydd hyn yn helpu'r ALl i adnabod plant o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd.

i) Ydych chi'n credu bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol ac yn gymesur? Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

ii) Os nad ydych yn credu bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol nac yn gymesur, beth fyddai'r ffordd orau/ffyrdd gorau o gyflawni dyletswydd yr ALl i adnabod plant o oedran ysgol gorfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael addysg addas, yn eich barn chi?

| Ydw/Cadarnhaol | Nac ydw/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 19.9%(29) | 78.1%(114) | 2.1%(3) |

N=146

**Sylwadau**
Cafwyd 146 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd bron i 20% o'r ymatebwyr (o gyrff a sefydliadau cyhoeddus yn bennaf) yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

> Ydw. Dim ond os bydd yn ymwybodol o bob plentyn sy'n preswylio yn ei ardal y gall awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd statudol i sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas. Felly, mae'n rhesymol ac yn gymesur ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol rannu gwybodaeth sylfaenol am y plant sy'n hysbys iddynt â'r awdurdod lleol perthnasol.
>
> Mae'n ddigonol. Bydd yn galluogi rhestr "rhesymol" gyflawn, ond nid rhestr fyw.
>
> Ydw, gan mai dyna'r unig ffordd o gael gwybod am blant o oedran ysgol gorfodol yn yr ardal. Noda'r tîm Lles Addysg y byddai'n croesawu'r gronfa ddata hon.

Ar y llaw arall, roedd ychydig dros 78% o'r ymatebwyr (unigolion yn bennaf) yn anghytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

> Mae'n amharchu cyfrinachedd cleifion, ac yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'n debygol o arwain at sefyllfa lle y bydd rhai rhieni yn gwrthod cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd i'w plant gan y byddant yn poeni y caiff eu manylion eu trosglwyddo i'r ALl.
> Nac ydw. Mae'n mynd yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 2018, erthygl 8. Mae'n ymyrryd â hawl teulu i breifatrwydd.
>
> Nid yw'r rheoliadau drafft yn dynodi sail gyfreithiol y gronfa ddata na sut y caiff y data eu defnyddio.

**Cwestiwn 2**
Ar hyn o bryd, mae ALlau yn gyfrifol am blant yn eu hardal nad ydynt yn ymwybodol ohonynt. O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, mae'n rhaid i ALlau wneud trefniadau i'w galluogi i ganfod (hyd y gellir gwneud hynny) pwy yw'r plant yn eu hardal sydd o oedran

ysgol gorfodol ond i) nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, a ii) nad ydynt yn cael addysg addas heblaw yn yr ysgol.

i) A ydych o'r farn y bydd y gronfa ddata yn helpu ALlau, hyd y gellir gwneud hynny, i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd a/neu blant sy'n colli addysg yn eu hardal?

ii) Beth yw'r rheswm dros eich ateb?

| Ydw/Cadarnhaol | Nac ydw/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 15%(20) | 77.4%(103) | 7.5%(10) |

N=133

**Sylwadau**
Cafwyd 133 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 15% o'r ymatebwyr (o gyrff a sefydliadau cyhoeddus yn bennaf) yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

> Ydw, bydd hyn yn helpu'r ALlau oherwydd ar hyn o bryd, dim ond plant sydd wedi cofrestru ar gyfer un o ysgolion yr ALl y mae ALlau yn ymwybodol ohonynt. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i'r awdurdod adnabod plant sy'n colli addysg hefyd.
>
> Bydd yn galluogi'r ALl i groesgyfeirio disgyblion hysbys â'r rheini o oedran ysgol ac sydd wedi cofrestru ar gyfer gwasanaethau iechyd yn yr ardal, ond nad ydynt o bosibl yn cael addysg addas yn yr ysgol neu fel arall.

Ar y llaw arall, roedd ychydig dros 77% o'r ymatebwyr (unigolion yn bennaf) yn anghytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

> Hyd y gwn i, mae eisoes yn ofynnol i blant sy'n cael addysg yn y cartref ysgrifennu at yr awdurdodau addysg i roi gwybod iddynt eu bod yn cael addysg yn y cartref. Mae hyn yn ddigon. Nid wyf o'r farn bod angen cymryd camau pellach.
>
> Nid oes gan Awdurdodau Lleol unrhyw ddyletswydd o'r fath i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt. Nid yw Adran 436A o Ddeddf Addysg 1995 yn gosod unrhyw ddyletswydd o'r fath ar Awdurdodau Lleol.
>
> Ni fydd yn helpu o gwbl yn hyn o beth. Mae llawer o deuluoedd yn dewis bod y tu allan i addysg brif ffrwd am lawer o wahanol resymau. Gan ei fod yn anelu at ddod o hyd i'r rheini "nad" ydynt yn cael addysg addas, bydd yn amlwg yn amharu ar bawb arall ac yn cael effaith uniongyrchol ar eu hawl i breifatrwydd a'u rhyddid i ddewis.

**Cwestiwn 3**
Heb gronfa ddata, pa ddull amgen dibynadwy a chyson a fyddai'n galluogi'r ALl i adnabod plentyn nad yw'n hysbys iddo?

Roedd ymatebion nodweddiadol i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

> Nid yw'r dulliau gweithredu presennol yn ddibynadwy nac yn gyson, gan gynnwys defnyddio'r cofrestrau genedigaethau byw a hysbysiadau dadgofrestru o ysgolion. Mae'n anodd rhagweld y byddai unrhyw ddull arall mor ddibynadwy a chyson â

chronfa ddata sy'n coladu gwybodaeth hanfodol am blant o oedran ysgol gorfodol o amrywiaeth o ffynonellau priodol.

O ystyried y niferoedd dan sylw, byddai'n anodd iawn cynnig dewis amgen effeithiol i ddefnyddio cronfa ddata a dulliau paru data. Byddem yn cefnogi'r defnydd o gronfa ddata at y diben hwn.

Byddai meithrin diwylliant o ymgysylltu â theuluoedd sy'n darparu addysg yn y cartref, cydymffurfio â'r gyfraith ac annog lluosogrwydd gwahanol athroniaethau addysgol o fewn awdurdodau lleol yn llawer tebycach o alluogi awdurdodau lleol i ymgysylltu ag addysgwyr yn y cartref.

Gan nad oes unrhyw ddyletswydd ar ALlau i adnabod plentyn nad yw'n hysbys iddynt, nid oes angen dull amgen. Mae creu unrhyw ddull i ALlau adnabod plant o'r fath y tu allan i'w cwmpas ac felly'n anghyfreithlon.

**Cwestiwn 4**

Mae Rheoliadau Cronfa Ddata Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 drafft yn cynnig y dylai byrddau iechyd lleol ddatgelu'r wybodaeth yn Atodlen 1 i ALlau yn flynyddol. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol? Os nad ydych yn cytuno, pa mor aml y dylid rhoi'r wybodaeth hon i ALlau yn eich barn chi, a beth fyddai'r adeg fwyaf priodol?

| Ydw/Cadarnhaol | Nac ydw/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 16.3%(22) | 75.6%(102) | 8.1%(11) |

N=135

Cafwyd 135 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig dros 16% o'r ymatebwyr (o gyrff a sefydliadau cyhoeddus yn bennaf) yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

Nac ydw, dylid rhannu gwybodaeth bob hanner tymor er mwyn sicrhau y gall yr ALl weithredu'n amserol a bod unrhyw lwyth gwaith ychwanegol yn hydrin.

Credir y byddai datganiad blynyddol yn mynd yn 'anghyfredol' yn gyflym oherwydd gall amgylchiadau newid yn gyflym i rai plant.

Ar y llaw arall, roedd bron i 76% o'r ymatebwyr (unigolion yn bennaf) yn anghytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

Nid wyf yn cytuno y dylid caniatáu i fyrddau iechyd ddatgelu unrhyw wybodaeth onid ystyrir bod iechyd neu lesiant plentyn (o ran gweithdrefnau amddiffyn plant) mewn perygl. Nid yw'r ffaith bod plentyn yn cael addysg yn y cartref yn golygu fod y plentyn hwnnw'n wynebu risg ac felly nid yw'n briodol i fyrddau iechyd gyfleu gwybodaeth o'r fath.

Nac ydw. Ni chredaf y dylai fod yn ofynnol i fyrddau iechyd ddatgelu gwybodaeth am gleifion.

**Cwestiwn 5**

Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 drafft yn cynnig y dylai ysgolion annibynnol ddatgelu'r wybodaeth yn Atodlen 1 i ALlau yn flynyddol. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol? Os nad ydych yn cytuno, pa mor aml y dylid rhoi'r wybodaeth hon i ALlau yn eich barn chi, a beth fyddai'r adeg fwyaf priodol?

| Ydw/Cadarnhaol | Nac ydw/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 16.1%(20) | 70.2%(87) | 13.7%(17) |

N=124

Cafwyd 124 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig dros 16% o'r ymatebwyr (o gyrff a sefydliadau cyhoeddus yn bennaf) yn cytuno â'r cwestiwn.

Ar y llaw arall, roedd ychydig dros 70% o'r ymatebwyr (unigolion yn bennaf) yn anghytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

> Credaf y dylid gwneud hynny bob 6 mis oherwydd o fewn blwyddyn, gallai plentyn fod yn colli allan ar addysg a hawliau eraill.
>
> Darperir ar gyfer hynny eisoes gan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, sy'n berthnasol i 'bob ysgol' yng Nghymru.
>
> Nid yw datgeliadau o'r fath yn briodol o gwbl ac maent yn mynd yn groes i'r gyfraith yn fy marn i – yn benodol, Deddf Hawliau Dynol 1998 a, gobeithio, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

**Cwestiwn 6**

Beth fyddai goblygiadau technegol a gweinyddol, a goblygiadau o ran adnoddau, cyflwyno datganiad data yn amlach o ran y canlynol: BILlau, Ysgolion Annibynnol, ALlau ac arall?

Roedd enghreifftiau o ymatebion gan randdeiliaid i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

BILlau

> Byddai hyn yn dibynnu ar ba fath o system a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth hon ac a ellir ei rhaglennu i ddarparu'r wybodaeth hon yn fwy rheolaidd.

Ysgolion Annibynnol

> Yn flynyddol, yr adeg fwyaf synhwyrol i gyflwyno'r data fyddai ar yr un pryd â'r adeg y mae'n rhaid i'r ysgolion annibynnol yng Nghymru gyflwyno eu datganiadau CYBLD, h.y. dyddiad y cyfrifiad ysgolion (14 Ionawr 2020 eleni) sy'n ddata gorfodol o dan Reoliad Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003. Mae'n bosibl y byddai cyflwyno'r data fwy nag unwaith y flwyddyn yn fwy beichus o ran amser, adnoddau a chostau.

ALlau

> Ar hyn o bryd, nid yw pob awdurdod yn defnyddio'r un system gofnodi er mwyn coladu a storio manylion am ddisgyblion. Byddai'n fuddiol sicrhau bod unrhyw gronfa ddata yn gallu cydweithredu â systemau presennol ALlau er mwyn osgoi achosion o ddyblygu trefniadau coladu data ac felly leihau'r llwyth gwaith.

Arall

Ni ddylid gwneud o gwbl, boed yn amlach neu beidio, gan ei fod yn mynd yn groes i hawliau dynol.

**Cwestiwn 7**
Pwy fyddai angen cael mynediad at y gronfa ddata yn yr ALl er mwyn cyflawni ei swyddogaethau?

Roedd ymatebion nodweddiadol i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

Y rheini sy'n gyfrifol am blant sy'n colli addysg (CME), sy'n cael addysg yn y cartref ac addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Er enghraifft, yn ein hawdurdod lleol ni, unigolion penodedig yn y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg yn ogystal ag uwch-reolwyr. Yn ogystal, byddai angen mynediad ar yr adran ddata er mwyn coladu datganiadau data.

Neb. Byddai cronfa ddata yn anghyfreithlon.

**Cwestiwn 8**
A gredwch y gallai unrhyw beth yn y rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac, os felly, beth?

| Credaf/Cadarnhaol | Na/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 68.9%(73) | 19.8%(21) | 11.3%(12) |

N=106

Cafwyd 106 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd bron i 69% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

Credaf y gallai fod effaith ar blant o deuluoedd â chredoau crefyddol, gwleidyddol neu athronyddol os caiff addysg ei hasesu gan unigolion nad ydynt yn deall gwahanol fathau o ddarpariaeth addysgol.

Credaf fod plant ag anableddau yn fwy tebygol o gael addysg yn y cartref.

Gan fod rhywedd yn un o'r gofynion data, gallai hyn gael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc o ran nodweddion gwarchodedig os bydd ystyriaethau o ran rhywedd ac hunan-uniaethu. Os bydd angen cysylltu â rhiant, byddai angen cyfeirio at y plant gan ddefnyddio'r rhywedd y maent yn uniaethu ag ef.

**Cwestiwn 9**
A yw'r cynnig hwn yn caniatáu i'r ALl gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 436A i wneud trefniadau i adnabod plant yn ei ardal sydd o oedran addysg orfodol ac nad ydynt yn cael addysg addas?

| Ydy/Cadarnhaol | Nac ydy/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 15.1%(18) | 70.6%(84) | 14.3%(17) |

N=119

Cafwyd 119 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ychydig dros 15% o'r ymatebwyr (o gyrff a sefydliadau cyhoeddus yn bennaf) yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

> Mae'r cynnig yn bodloni adran 436A gan y bydd yn ofynnol i'r ALl gadw cronfa ddata gyfredol ar blant o oedran ysgol gorfodol.
>
> Ar y cyfan, ydy, ond bydd rhai yn cael eu methu o hyd gan nad yw prosesau paru data byth 100% yn gywir ar draws setiau data mawr, a bydd grwpiau sy'n anodd eu holrhain fel teithwyr a phlant sy'n cael addysg y tu allan i Gymru. Gall ceiswyr lloches hefyd fod yn anodd i'w holrhain gan eu bod yn symud yn sydyn. Bydd angen ystyried y plant hynny hefyd nad ydynt yn rhan o unrhyw set ddata – y rheini nad ydynt wedi'u cofrestru â meddyg teulu, er enghraifft,

Ar y llaw arall, roedd bron i 71% o'r ymatebwyr (unigolion yn bennaf) yn anghytuno â'r cwestiwn.  Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

> Mae'n ymyrryd â'r hawl i fywyd teuluol preifat hyd yn oed mewn achosion lle nad oes unrhyw achos dros bryderu, ac nid yw o fudd i blant sy'n cael addysg yn y cartref na'u teuluoedd.
>
> Mae'n mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol gan y gyfraith.

**Cwestiwn 10**
Er mwyn nodi pa mor effeithiol yw'r gronfa ddata bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i ALlau gyflwyno datganiad blynyddol ar nifer y plant y maent wedi'u hadnabod drwy'r gronfa ddata nad oeddent yn hysbys i ALlau yn flaenorol. Beth fyddai'r adeg fwyaf priodol a rhesymol i ofyn am hyn?

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio ac nid oedd cytundeb o ran amseru nac unrhyw anghytundeb o ran yr angen am ddatganiad:

> Rai misoedd ar ôl derbyn y data – felly, er enghraifft, os derbynnir y data ym mis Hydref yn seiliedig ar ddata mis Medi, yna gallai fod yn rhan o ddatganiad CYBLD mis Ionawr.
>
> Mae ein hymatebion yn ymwneud â CYBLD, a chan ystyried hyn, mae dwy adeg bosibl o'r flwyddyn y byddem yn eu hawgrymu: Mis Hydref/Tachwedd gan y byddai hyn yn caniatáu i'r plant ddechrau yn yr ysgol. Mae'n bosibl y byddai dyddiad CYBLD (ganol mis Ionawr) yn rhy hwyr i adnabod plant o oedran derbyn sydd ar goll. Mis Chwefror – mae hyn ar ôl CYBLD, a bydd hefyd yn rhoi amser i'r ALl gadarnhau'r

wybodaeth iechyd os caiff y wybodaeth iechyd ei rhannu ym mis Hydref fel y cynigiwyd.

Yr un adeg â'r adeg y caiff data CYBLD eu casglu.

**Cwestiwn 11**

A fyddai cronfa ddata wirfoddol o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer yn ardal ALl yn helpu ALlau i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 436A, yn eich barn chi?

| Byddai/Cadarnhaol | Na fyddai/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 14.7%(17) | 49.1%(57) | 36.2%(42) |

N=116

Cafwyd 119 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd bron i 15% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

Yn sicr, byddai cronfa ddata wirfoddol yn well nag un orfodol, ar yr amod y bydd yn parchu hawliau plant a hawliau rhieni. Ar yr amod na fydd pwysau ar rieni i gofnodi data eu plant, gallai weithio'n dda wrth feithrin cydberthnasau gwaith a rhwng y rhieni a'r ALlau.

Pe byddai'n wirioneddol wirfoddol (gallai teuluoedd ymuno a gadael yn ôl eu dymuniad), yna gallai fod yn ddefnyddiol.

Byddai cronfa ddata wirfoddol yn fwy dymunol na chronfa ddata orfodol. Gallai meithrin cydberthnasau cadarn a chefnogol rhwng teuluoedd sy'n darparu addysg yn y cartref a'r ALl arwain at lai o ddrwgdeimlad a mwy o ymddiriedaeth rhyngddynt. Rwy'n amau a fyddai cofrestr wirfoddol yn helpu'r ALlau i adnabod plant yn eu hardal nad ydynt yn cael addysg addas. Mae'r teuluoedd hynny yn llawer mwy tebygol o fod am aros yn anhysbys.

Ar y llaw arall, roedd ychydig dros 49% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cwestiwn. Mae'r canlynol yn ymatebion nodweddiadol:

Na fyddai, gan y gallai rhai rhieni o bosibl anghofio neu fethu â chofrestru eu plant yn fwriadol. Mewn gwirionedd, cronfa ddata wirfoddol yw'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac rydym yn clywed am lawer o deuluoedd (yn ôl pob sôn) nad ydynt wedi cysylltu â'r tîm Addysg yn y Cartref. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn nodi y byddai'n gwrthwynebu cronfa ddata wirfoddol yn gryf a'i fod yn teimlo bod angen iddi fod yn orfodol.

Na fyddai, gan mai prin iawn yw'r achosion lle y bydd rhieni plant nad yw'r ALl yn ymwybodol ohonynt yn sgil dadgofrestru o ysgol yn cysylltu â'r ALl yn wirfoddol neu'n rhoi gwybod i'r ALl eu bod wedi gwneud hynny. Ar hyn o bryd, dim ond drwy atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill, er enghraifft drwy PPN, y bydd hynny'n digwydd.

Ni fyddai system wirfoddol yn darparu cysondeb ledled Cymru, felly bydd angen iddi fod yn statudol er mwyn gweithredu'n effeithiol.

**Cwestiwn 12**
Beth fyddai manteision ac anfanteision datgelu'r data gofynnol i boblogi'r gronfa ddata, os o gwbl, yn eich barn chi? Cwblhewch yr adran sy'n berthnasol i chi.

Roedd ymatebion nodweddiadol yn disgrifio manteision yn cynnwys y canlynol:

> Y fantais i blant fyddai na fyddent yn colli allan ar addysg os cânt eu hadnabod fel plant o oedran ysgol ac nad ydynt yn cael addysg ar hyn o bryd.
>
> Bydd yn galluogi ALlau i adnabod plant nad ydynt mewn darpariaeth briodol yn well ac i gymryd camau dilynol.

Roedd ymatebion nodweddiadol yn disgrifio anfanteision yn cynnwys y canlynol:

> Colli ymddiriedaeth mewn gwasanaethau meddygol, amharodrwydd i gysylltu â gwasanaethau meddygol, mynd yn groes i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r HRA.
>
> Byddai angen defnyddio hysbysiadau preifatrwydd priodol.

**Byrddau Iechyd Lleol**

**Cwestiwn 13**
A yw'r protocolau presennol ynglŷn â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fyddai prosesu'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

| Ydynt/Cadarnhaol | Nac ydynt/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 100%(2) | 0%(0) | 0%(0) |

N=2

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at fyrddau iechyd lleol, yr ymatebodd dau ohonynt drwy gytuno â'r cwestiwn. Roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

> O safbwynt Tîm Gwybodaeth, rydym yn dilyn canllawiau Llywodraethu Gwybodaeth a chanllawiau'r tîm Cymorth i Deuluoedd. Defnyddir cyfrineiriau i ddiogelu'r holl ddata PPI a sicrheir eu bod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth cyn eu rhannu'n allanol.
>
> Ydynt. Mae protocol ar waith.

**Cwestiwn 14**
A allwch nodi unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd, a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at fyrddau iechyd lleol, ac ymatebodd dau fwrdd iechyd lleol drwy ddarparu sylwadau. Roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

Er mwyn gallu nodi risgiau allweddol, byddem yn gofyn i Swyddog Diogelu Data, SIRO a Gwarcheidwad Caldicott y Bwrdd Iechyd adolygu unrhyw asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd a / neu asesiadau risg ynghyd â'r ddogfennaeth rhannu gwybodaeth y mae angen ei rhoi ar waith. Byddai unrhyw asesiadau o'r fath yn nodi pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu'r system, sut y caiff data eu storio, eu rhannu a'u cadw. Ceir sôn am broseswyr trydydd parti, ond nid yw'n glir pwy yw'r rheini, felly bydd angen ystyried hyn fel rhan o unrhyw gytundebau llywodraethu gwybodaeth o ran y cydberthynas rhwng y rheolydd / prosesydd. Byddem yn nodi ar hyn o bryd nad yw'n glir sut y byddai data o'r fath yn cael eu rhannu ac mae'r system honno fel arfer yn peri pryder i ni (e.e. cyfrif e-bost unigolyn neu safle SharePoint â mynediad ar lefel defnyddwyr) gan nad ydym bob amser yn cael gwybod pan fydd pobl â mynediad i adroddiadau o'r fath wedi symud timau/sefydliadau ac y dylid eu hatal rhag cael mynediad i'r data.

Mae angen proses gadarn ar gyfer mynediad diogel ac ar gyfer cynnal y mynediad hwnnw. Byddai angen i Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ac felly dim ond mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad y gellir ateb y cwestiwn hwn. Rhai cwestiynau penodol: Ai Llywodraeth Cymru/Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru fyddai'n datblygu'r system? Os na, pwy? Ai'r bwrdd iechyd? Byddem am wybod a gaiff y data eu storio ar weinyddion yng Nghymru/yn y DU. Ceir sôn am broseswyr trydydd parti, ond nid yw'n glir pwy yw'r rheini ac a gânt eu nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

**Cwestiwn 15**
A ydych wedi cael unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o ddatgelu/prosesu data?

| Ydw/Cadarnhaol | Nac ydw/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 100%(2) | 0%(0) | 0%(0) |

N=2

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at fyrddau iechyd lleol, yr ymatebodd dau ohonynt drwy gytuno â'r cwestiwn. Roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

Fel corff cyhoeddus, mae dyletswydd arnom o dan y swyddogaeth tasg gyhoeddus i rannu data'n briodol â sefydliadau eraill er mwyn trin a gofalu am ein cleifion yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Rydym yn defnyddio Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (CRhGBC) ar gyfer gweithgarwch prosesu o'r fath.

Ydw. Mae dyletswydd ar y bwrdd iechyd o dan ei swyddogaeth tasg gyhoeddus i rannu data'n briodol â sefydliadau eraill er mwyn trin a gofalu am ei gleifion yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae hyn fel arfer yn cynnwys cytundeb rhannu data neu ISP, ac mae gan y bwrdd iechyd weithdrefnau ar waith i sicrhau bod y sefydliadau hynny hefyd yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a bod ganddynt fesurau technegol a mesurau diogelwch priodol ar waith.

**Cwestiwn 16**
Beth yw goblygiadau prosesu a datgelu'r data gofynnol i ALlau i ran adnoddau a materion technegol?

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at fyrddau iechyd lleol, ac ymatebodd dau drwy ddarparu sylwadau. Roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

> Mae'n dibynnu pwy sy'n gyfrifol am reoli hawliau mynediad? Pwy sy'n gyfrifol am gadw'r data os bydd unigolyn yn gwneud cais am ei wybodaeth yn unol â'i hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae angen rhagor o wybodaeth am y Fanyleb Setiau Data gofynnol er mwyn ateb y cwestiwn hwnnw'n ddigonol. Yn seiliedig ar brofiad blaenorol, gallai fod angen rhwng 7 a 10 diwrnod llawn i ddatblygu, profi (o'r dechrau i'r diwedd) a gweithredu proses o'r fath – ar yr amod bod y fanyleb yn glir ac y cytunwyd arni.
>
> Mae problemau posibl hefyd o ran adnoddau yn gysylltiedig â'r gofynion a fydd ar wasanaethau iechyd i roi cymorth i'r plant a'r bobl ifanc a gaiff eu darganfod drwy'r rhestr. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn debygol o fod yn anodd i'w cyrraedd ac yn agored i niwed ac felly, bydd angen cymorth a chapasiti arnynt nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Rhagwelir y byddai angen adnoddau er mwyn rheoli hawliau mynediad.

**Ysgolion Annibynnol**

**Cwestiwn 17**
A allwch nodi unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd, a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

| Gallaf/Cadarnhaol | Na/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 0%(0) | 100%(1) | 0%(0) |

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at Ysgolion Annibynnol. Ymatebodd un sefydliad cynrychioliadol yn negyddol i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 18**
A ydych wedi cael unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o brosesu?

| Ydw/Cadarnhaol | Nac ydw/Negyddol | Niwtral |
|---|---|---|
| 0%(0) | 100%(1) | 0%(0) |

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at Ysgolion Annibynnol. Ymatebodd un sefydliad cynrychioliadol yn negyddol i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 19**
Beth yw goblygiadau prosesu a datgelu'r data gofynnol i ALlau i ran adnoddau a materion technegol?

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at Ysgolion Annibynnol. Ymatebodd un sefydliad cynrychioliadol drwy ddarparu sylwadau. Roedd ei ymateb fel a ganlyn:

> Yr adeg fwyaf synhwyrol i gyflwyno'r data fyddai ar yr un pryd â'r adeg y mae'n rhaid i'r ysgolion annibynnol yng Nghymru gyflwyno eu datganiadau CYBLD, h.y. dyddiad y

cyfrifiad ysgolion (14 Ionawr 2020 eleni) sy'n ddata gorfodol o dan Reoliad Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003

Mae'n bosibl y byddai cyflwyno'r data fwy nag unwaith y flwyddyn yn fwy beichus o ran amser, adnoddau a chostau.

**Awdurdod Lleol**

**Cwestiwn 20**
A hepgorwyd unrhyw beth yn yr Atodlen o Wybodaeth i'w chynnwys yn y gronfa ddata?

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at ALlau, yr ymatebodd pump ohonynt drwy ddarparu sylwadau. Dyma eu hymatebion:

Dylai'r wybodaeth y gofynnir amdani alluogi ALlau i adnabod disgyblion perthnasol neu i wneud ymholiadau pellach â'r asiantaeth berthnasol. Lle y bu pryderon diogelu mewn awdurdodau eraill, dylid nodi hyn ar y gronfa ddata hefyd er mwyn sicrhau bod swyddogion ALlau yn ymwybodol o bryderon diogelu parhaus posibl ac yn ymateb yn briodol iddynt.

Bydd angen i ALlau gael enwau cyfreithiol llawn wedi'u nodi fel meysydd unigol ar gyfer enw cyntaf, cyfenw ac enwau canol. Hefyd, er mwyn helpu â'r broses baru a chyflymu'r broses ar ôl dod o hyd i'r pâr cyntaf, byddai rhif y GIG hefyd yn fuddiol iawn.

Oherwydd canllawiau CYBLD Llywodraeth Cymru, dim ond dau opsiwn gorfodol sydd ar gael ar gyfer rhywedd (h.y. Gwryw neu Fenyw) ac ni wnaiff ein system Capita ONE bresennol dderbyn "if the person's gender has not been specified a statement about the effect" ar hyn o bryd.

A ellid creu categori lle y gallai gweithiwr proffesiynol o unrhyw asiantaeth gofnodi'r dyddiad pan fyddai'n gweld y plentyn.

Pryderon pe caiff un dyddiad unigol ei ddefnyddio ac nad oes unrhyw rwymedigaeth i ddiweddaru na rhannu gwybodaeth ac eithrio ar gyfer y dyddiad hwn. Mae'n bosibl y caiff rhai disgyblion eu hychwanegu at y gofrestr a'u tynnu oddi ar y gofrestr, felly hefyd restrau meddygfeydd, yn unol â'r dyddiadau hyn. Mae'n bosibl y bydd angen canllawiau ar gyfer achosion o'r fath.

**Cwestiwn 21**
A yw'r protocolau presennol ynglŷn â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fyddai prosesu'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at ALlau, yr ymatebodd pedwar ohonynt drwy ddarparu sylwadau. Dyma eu hymatebion:

Os yw'r plentyn yn hysbys a'i fod ar gofrestr, yna mae system bresennol yr ALl yn gadarn ac yn sicrhau na cheir unrhyw enghreifftiau o gyfathrebu amhriodol â theuluoedd. Byddai'r ALl yn defnyddio'r system Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau

Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDIC) er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw enghreifftiau o gyfathrebu amhriodol â theuluoedd.

Mae'r maes hwn yn achosi problemau weithiau, gan fod marwolaethau yn cael eu cofrestru yn yr ardal y byddant yn digwydd, felly dim ond marwolaethau a gofrestrwyd yn ardal ein hawdurdod lleol ni y gall cofrestryddion ein hysbysu amdanynt. Rydym yn ceisio sicrhau na chaiff unrhyw ohebiaeth amhriodol ei hanfon, ond nid yw hynny bob amser yn bosibl.

Ydynt – Rydym yn defnyddio system Capita ONE ar hyn o bryd, sy'n golygu y gallwn nodi cofnod fel cofnod "anweithredol" yn dilyn marwolaeth gan nodi dyddiad y farwolaeth.

Nid wyf yn ymwybodol ein bod wedi cael problem o'r fath.

**Cwestiwn 22**
A allwch nodi unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd, a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at ALlau, yr ymatebodd pedwar ohonynt drwy ddarparu sylwadau. Dyma eu hymatebion:

Byddai angen hysbysiadau preifatrwydd a chytundebau datgelu data ar wasanaethau iechyd. Byddai angen hysbysiadau preifatrwydd a chytundebau datgelu data ar wasanaethau tai. Byddai angen hysbysiadau preifatrwydd a chytundebau datgelu data ar ysgolion arbennig annibynnol.

Bydd yn rhaid trosglwyddo data yn ddiogel. Mae porth sy'n bodoli eisoes gan y GIG y gellid ei ddefnyddio. Ar gyfer ysgolion annibynnol, gellid rhoi rhywbeth ar waith o bosibl iddynt ei ddefnyddio drwy DEWi? Mae risg y bydd yr ysgolion hyn yn anfon data i'r ALlau anghywir, felly mae angen system iddynt baru disgyblion ag ALlau yn gywir. Mae'n bosibl y bydd risg i nifer bach o blant y caiff eu cyfeiriad a'u manylion cyswllt eu cadw'n gyfrinachol am amrywiaeth o resymau, at ddibenion amddiffyn plant yn bennaf. Bydd angen protocol o ryw fath i ymdrin â hyn.

Dim ar wahân i gasglu a monitro gwybodaeth am bob Plentyn/Person Ifanc sy'n ymgymryd â rhyw fath o Addysg yn barod, e.e. Ysgolion a Gynhelir gan yr ALl, Addysg Heblaw yn yr Ysgol, ac ati.

Bydd angen ISP clir ar waith er mwyn sicrhau bod rhieni, asiantaethau ac ALlau yn glir o ran y data y gellir eu rhannu ac at ba ddiben. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth a gaiff ei rhannu yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys unrhyw bryderon diogelu blaenorol perthnasol. Bydd angen llunio protocolau diogelwch mewn perthynas â'r gronfa ddata, er enghraifft o ran rheoli mynediad ac amgryptio data, yn ogystal â methodolegau y cytunwyd arnynt ar gyfer trosglwyddo a rhannu data'n ddiogel. Mae angen ystyried sut y bydd y gronfa ddata yn galluogi rheolyddion data i ymgymryd â'u rhwymedigaethau diogelu data mewn perthynas â thestunau data (h.y. gweithredu'r cyfnodau cadw y cytunwyd arnynt, y gallu i ddiwygio data, dileu data mewn ffordd ddiogel, mesurau i sicrhau cywirdeb data ac ati)

**Cwestiwn 23**
A ydych wedi cael unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o brosesu?

Cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at ALlau, yr ymatebodd pedwar ohonynt drwy ddarparu sylwadau. Dyma eu hymatebion:

> Prosesau rhannu gwybodaeth Data Cymru ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref. Prosesau rhannu gwybodaeth a chronfeydd data CYBLD ac Addysg Ddewisol yn y Cartref.
>
> Ymateb gan y tîm data: Ar hyn o bryd, rydym yn casglu data ar gyfuniad o'n system Capita ONE a thaenlen fewnol. Fodd bynnag, y nod yw gwneud hynny gan ddefnyddio Capita ONE yn unig gan sicrhau cysondeb wrth gofnodi gan bob un sy'n rhan o'r broses.
>
> Mae rhai ALlau yn coladu data â llaw, ond nid oes ganddynt unrhyw brofiad electronig.
>
> Ydym, rydym wedi ymgymryd â sawl ymarfer paru data at lawer o ddibenion, felly rydym wedi arfer â'r math hwn o brosesu.

**Cwestiwn 24**
Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r rheoliadau drafft hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu sut y gallai effeithiau negyddol gael eu lliniaru?

Roedd enghreifftiau o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

> Ni fydd y rheoliadau drafft yn cael effaith sylweddol ar y Gymraeg. Mae'n bosibl y ceir effaith gadarnhaol ar y Gymraeg os bydd y gronfa ddata yn adnabod plant na fyddent fel arfer yn cael unrhyw gysylltiad â'r iaith mewn cartref cwbl ddi-Gymraeg. Gallai'r ALl gyfeirio teuluoedd at adnoddau perthnasol pe byddent am ddysgu Cymraeg.
>
> Byddai cynigion diarbed o'r fath, pe caent eu gweithredu er gwaethaf y ffaith nad ydynt yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Cydraddoldeb, yn trin addysgwyr yn y cartref sy'n siarad Cymraeg yn llai ffafriol nag addysgwyr cyfatebol Saesneg, a thrwy hynny roi dinasyddion a siaradwyr Cymraeg o dan anfantais anghymesur, a gwahaniaethu ar sail un nodwedd warchodedig neu fwy.

**Cwestiwn 25**
Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau:

i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

ii) na fyddant yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Roedd enghreifftiau o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

> Mae angen newid deddfwriaeth er mwyn rhoi cyfarwyddyd i rieni addysgu sgiliau cynhwysfawr gofynnol, y mae'n rhaid iddynt gynnwys sgiliau Cymraeg, er mwyn sicrhau bod y plant hynny sy'n cael addysg yn y cartref yn cael addysg addas. Bydd hyn yn galluogi'r plant hynny i ddod yn aelodau cyflawn o gymdeithas yn y dyfodol a bydd yn cynyddu cyfleoedd swyddi ac ati iddynt.
>
> Cydnabyddir o bosibl nad yw'r plant hynny sy'n cael addysg fel arall yn cael unrhyw addysg Gymraeg, ac y gallai hynny eu hatal rhag cymryd rhan yn y gymuned leol, ac ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymuned Gymreig ehangach. Fodd bynnag, gallai'r gronfa ddata fod yn ddefnyddiol wrth adnabod y plant hyn a chyfathrebu â nhw er mwyn cynnig cymorth a chyngor iddynt gael gafael ar adnoddau addysgol Cymraeg. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol pe byddai'r gronfa ddata arfaethedig yn cofnodi sgiliau iaith y plentyn y gellid eu rhannu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol priodol a allai ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn unol ag egwyddorion y 'Cynnig Rhagweithiol'.

**Cwestiwn 26**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at themâu yr ymdriniwyd â nhw eisoes yn y cwestiynau blaenorol. Ceir disgrifiad byr ohonynt yn y crynodeb ynghyd ag unrhyw themâu eraill nad ymdriniwyd â nhw'n benodol yn y cwestiynau blaenorol.

# 4. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gronfa ddata

4.1. Cafwyd ymatebion negyddol i'r cynigion gan y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr unigol, er bod y cyrff statudol, y cyrff cyhoeddus a'r cyrff cynrychioliadol a ymatebodd o'u plaid ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiynydd Plant o'r farn, yn ei hymateb, fod y cynigion yn mynd yn ddigon pell. Manteisiodd cyfran fawr o'r ymatebwyr unigol hefyd ar y cyfle i fynegi eu safbwyntiau am amrywiaeth eang o themâu mewn perthynas ag addysg yn y cartref y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn.

4.2. Y gofyniad ar fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol i ddatgelu gwybodaeth i awdurdodau lleol er mwyn helpu i adnabod plant o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal nad ydynt yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd.

4.2.1. Roedd cyrff cyhoeddus o blaid y cynnig hwn ac yn cytuno mai dim ond os bydd yn ymwybodol o bob plentyn sy'n preswylio yn ei ardal y gall awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd statudol i sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas. Felly, mae'n rhesymol ac yn gymesur ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol rannu gwybodaeth sylfaenol sy'n hysbys iddynt. Nodwyd hefyd y byddai'n cefnogi gwaith o safbwynt plismona, o ran y buddiannau, y diogelwch a'r cymorth y mae bod yn yr ysgol yn eu rhoi i blant sy'n agored i niwed sy'n wynebu risg o ddod i gysylltiad ag achosion o droseddu neu gamfanteisio arnynt.

4.2.2. Roedd buddiannau hefyd o safbwynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o ran cofnodi ADY yn ôl math, a fyddai'n galluogi ALlau i asesu a oes nifer anghymesur o blant ag ADY yn cael addysg ddewisol yn y cartref. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon i nodi meysydd sy'n peri pryder, er enghraifft, lle bydd nifer mawr o blant ag ADY yn cael addysg yn y cartref. Gellid cynnal asesiadau er mwyn canfod addasrwydd y ddarpariaeth addysgol brif ffrwd i blant ag ADY. Byddai cofnodi presenoldeb ADY hefyd yn helpu ALlau i gyflawni eu dyletswydd i fyfyrwyr ag ADY sy'n cael addysg yn y cartref.

4.2.3. Nododd ymateb y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) fod y rheoliadau arfaethedig yn nodi dull cyffredinol ar gyfer rhannu gwybodaeth a fyddai, yn ei farn ef, yn cyfyngu ar allu meddygon i arfer eu barn broffesiynol i benderfynu a fyddai rhannu gwybodaeth benodol er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

4.2.4. Roedd ymatebion unigol yn gwrthwynebu'r cynnig, gan gynnwys y sylw canlynol: "Byddai beth bynnag y byddai'r rheoliad hwn yn ei awdurdodi wedyn yn cael ei ganiatáu o fewn Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Ond byddai angen i'r rheoliadau gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 o hyd (ac Erthygl 8 y ddeddf honno yn benodol) felly dyna fyddai ffocws unrhyw her gyfreithiol i'r rheoliadau."

4.2.5. Nododd addysgwyr eraill yn y cartref y byddai hyn yn gyfystyr ag ymyrraeth sylweddol gan y wladwriaeth yn y gydberthynas werthfawr a chyfrinachol rhwng clinigwyr a chleifion, sy'n gwbl anfoesegol ac yn cael effaith andwyol ar ofal i gleifion. Byddai datgelu manylion pawb â

chyfrifoldeb rhiant yn peri risg annerbyniol i rieni a phlant sydd wedi dioddef achosion o gam-drin domestig. Roedd llawer o'r farn y byddai hyn achos sylweddol o dorri rhyddid sifil a hawliau dynol sylfaenol a'r hawl i fywyd teuluol a bywyd preifat. Roeddent hefyd o'r farn bod y cynigion yn ceisio trin plant sy'n cael addysg yn y cartref yn wahanol iawn i blant sy'n cael addysg mewn ysgolion a gaiff eu rhedeg gan y wladwriaeth ac nad yw'r ffaith nad oes gwybodaeth ar gael am blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn golygu bod y plant hynny yn wynebu risg o niwed.

4.3. A fydd y gronfa ddata yn helpu ALlau, hyd y gellir gwneud hynny, i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd a/neu blant sy'n colli addysg yn eu hardal; a heb gronfa ddata, pa ddull amgen dibynadwy a chyson a fyddai'n galluogi'r ALl i adnabod plentyn nad yw'n hysbys iddo.

4.3.1. Nododd ymatebion yr ALlau y bydd y gronfa ddata yn galluogi ALlau i gael cronfa ddata rhesymol gynhwysfawr o'r holl blant o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal ac y bydd hyn yn helpu i ddiffinio plant nad ydynt yn cael addysg yn yr ysgol. Fodd bynnag, ni fydd y gronfa ddata yn helpu ALlau i benderfynu a yw plant yn cael addysg addas. Bydd y gronfa ddata yn helpu i adnabod plant nad ydynt yn hysbys i ALlau, ond byddai hynny wedyn yn cynyddu llwyth gwaith swyddogion wrth wneud ymholiadau dilynol pellach. Ni fydd y gronfa ddata ar ei phen ei hun yn ddigon i gyflawni cyfrifoldeb yr ALlau. Bydd angen defnyddio'r data perthnasol yn gyson a bydd angen cymryd camau gweithredu priodol. Ni fydd cronfa ddata heb unrhyw gamau gweithredu ategol yn arwain at unrhyw welliannau o ran y canlyniadau i blant.

4.3.2. Unwaith eto, roedd yr ymatebwyr unigol yn erbyn y cynnig gan nodi na fydd y gronfa ddata yn helpu ALlau gan fod y rheoliadau drafft sy'n sefydlu'r gronfa ddata yn anghyfreithlon gan eu bod, ymhlith pethau eraill, yn mynd yn groes i Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; a'i fod yn amhriodol awgrymu fod gan ALlau ddyletswydd "*i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd*". Nododd yr ymatebwyr nad yw Adran 436A yn gosod dyletswydd o'r fath ac nad oes gan ALlau ddyletswydd o'r fath beth bynnag.

4.3.3. O ran awgrymiadau ar gyfer opsiynau amgen, nodwyd nad yw'r dulliau gweithredu presennol yn ddibynadwy nac yn gyson, gan gynnwys defnyddio'r cofrestrau genedigaethau byw a hysbysiadau dadgofrestru o ysgolion. Mae'n anodd rhagweld y byddai unrhyw ddull arall mor ddibynadwy a chyson â chronfa ddata sy'n coladu gwybodaeth hanfodol am blant o oedran ysgol gorfodol o amrywiaeth o ffynonellau priodol. Nododd ymatebwyr unigol y canlynol: "nid yw'r ffaith nad oes gan awdurdod wybodaeth yn golygu bod mwy o risg ac mae'n well creu pontydd o barch o'r ddwy ochr, yn hytrach na dymchwel unrhyw gyfathrebu sy'n bodoli eisoes drwy fwrw ati'n barhaus mewn ffordd gatastroffig i ddymchwel unrhyw awgrym sy'n bodoli o gyfathrebu ac ymddiriedaeth drwy ymdrechion diarbed parhaus gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth na chafodd ystyriaeth ddigonol yn seiliedig ar amheuon, diffyg ymddiriedaeth a rhagfarn sefydliadol."

4.4. A yw'r ymatebwyr yn cytuno â datganiad gwybodaeth blynyddol gan fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol; ac os nad ydynt, pa mor aml y dylid darparu'r wybodaeth hon i ALlau; a goblygiadau datganiad data amlach o ran technoleg, prosesau gweinyddol ac adnoddau.

4.4.1. Nid oedd unrhyw gytundeb ymhlith sefydliadau o ran amlder casglu data. Roedd rhai o'r farn bod ymateb blynyddol yn briodol, roedd eraill o'r farn ei fod yn anaddas a'i fod yn creu risg sylweddol i ddisgyblion nad ydynt yn cael addysg addas. Roedd gwahaniaeth barn o ran pa mor aml y dylid casglu data, gan amrywio o bob tymor (deirgwaith y flwyddyn) ac unwaith bob hanner tymor. Bydd pwynt casglu blynyddol yn golygu ar unrhyw un adeg benodol y gallai'r wybodaeth yn y gronfa ddata fod wedi'i darparu hyd at flwyddyn yn ôl ac o ganlyniad, y gallai plant lithro drwy'r rhwyd.

4.4.2. Ailbwysleisiodd ymatebwyr unigol y gred na ddylid bod unrhyw ddatgelu a bod trefniadau o'r fath ar gyfer casglu data yn anghyfreithlon.

4.4.3. Mewn perthynas â'r goblygiadau o ran prosesau gweinyddol ac adnoddau, nododd ymatebion yr ALlau nad oes ganddynt weithiwr penodol sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas. Felly, gallai'r llwyth gwaith i'w rheoli, yn ogystal â'u rolau a'u cyfrifoldebau eraill, gynyddu – er enghraifft, ymweliadau â chartrefi, diweddaru'r gronfa ddata er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol, gwneud ymholiadau ag awdurdodau eraill os credir bod y disgybl wedi symud ardal, anfon llythyrau ymholi. Dylid sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i adlewyrchu amser ychwanegol y swyddogion (addysg ac asiantaethau eraill) a'r cynnydd posibl mewn ceisiadau SAO yn dilyn tystiolaeth nad yw plentyn yn cael addysg addas.

4.5. A allai unrhyw beth yn y rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

4.5.1. Nid oedd y sefydliadau a ymatebodd o'r farn y byddai unrhyw effaith anghymesur, er i un ALl nodi y gallai o bosibl fod effaith ar ddysgwyr sydd wedi ailbennu eu rhywedd ac wedi dewis cael addysg yn y cartref o ganlyniad i faterion yn ymwneud â hynny.

4.5.2. Ymatebodd unigolion i'r thema bod y rheoliadau drafft wedi'u drafftio'n eang iawn i'r graddau y gellid o bosibl ddefnyddio'r wybodaeth a/neu ei rhannu at unrhyw ddiben ac y byddai hynny'n golygu y byddent yn anghyfreithlon. Ar y sail honno, gallai'r rheoliadau drafft gael eu camddefnyddio a chael effaith anghymesur, nid yn unig ar bobl â nodweddion gwarchodedig, ond ar unrhyw unigolyn y caiff ei ddata personol eu cofnodi ar y gronfa ddata arfaethedig. Gallent hefyd gael canlyniadau anfwriadol, er enghraifft, gallent ddylanwadu ar benderfyniadau gan rai teuluoedd i beidio â chael gafael ar ofal meddygol oherwydd amheuon ynghylch rhannu data.

4.6. A yw'r cynigion yn caniatáu i'r ALl gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i adnabod plant yn ei ardal sydd o oedran addysg orfodol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas.

4.6.1. Nododd ymatebion sefydliadol na fydd y gronfa ddata arfaethedig o reidrwydd yn gwarantu y caiff pob plentyn o oedran ysgol gorfodol mewn ardal ei adnabod. Fodd bynnag, bydd yn darparu dull llawer mwy dibynadwy a chyson o adnabod plant na'r sefyllfa sydd ohoni. Nododd ymatebion ALlau ei bod yn caniatáu i'r ALl adnabod y dysgwyr hynny nad ydynt yn cael addysg mewn ysgol brif ffrwd, ysgol arbennig neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, ond nad yw'n caniatáu i ALlau benderfynu a yw'r addysg yn addas.

4.6.2. Roedd ymatebwyr unigol o'r farn bod y cynnig yn datgelu'r agweddau gwahaniaethol cynhenid sy'n sail i ddeddfwriaeth arfaethedig o'r fath ac y bydd yn achosi unigolion i ymddieithrio ac amau yn hytrach na chyfathrebu.

4.6.3. Roedd rhywfaint o ddryswch ymhlith y sefydliadau a ymatebodd o ran a fyddai'r gronfa ddata yn wirfoddol ac os felly, a allai rhieni ofyn i'w manylion gael eu dileu neu a allai rhieni ddewis peidio â darparu manylion. Roedd unigolion yn fwy cefnogol o gronfa ddata wirfoddol.

4.7. Y manteision, yr anfanteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datgelu data i boblogi'r gronfa ddata.

4.7.1. Roedd ychydig dros hanner yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn ansicr, yn niwtral neu gwnaethant ddewis peidio â chyflwyno sylwadau. Gallai hyn fod gan fod y cwestiwn wedi'i eirio'n wael neu oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r effaith fwriadedig. Roedd y sylwadau yn awgrymu y bydd angen i'r data a gaiff eu datgelu fod yn rhesymol ac yn gymesur er mwyn peidio ag enwi disgyblion unigol o fewn awdurdodau gwahanol yn enwedig y rheini lle nad oes ond nifer bach o blant wedi'u hadnabod fel plant nad ydynt yn cael addysg addas. Roedd ysgolion annibynnol o bosibl yn ystyried bod y cais am wybodaeth yn feichus ac yn ddiangen ac yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod systemau ar waith i wneud yn siwr y gellir casglu a chyflwyno'r data heb gynyddu llwyth gwaith staff yr ysgol yn ddiangen. Ailbwysleisiodd yr unigolion hynny a ymatebodd fod cyngor cyfreithiol yn awgrymu y byddai'r rheoliad hwn, pe câi ei ddeddfu, yn mynd yn groes i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Hawliau Dynol 1998.

4.8. Yr effaith ar y Gymraeg.

4.8.1. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ansicr, yn niwtral neu gwnaethant ddewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn, neu ei ateb drwy nodi na fyddai llawer o effaith, os o gwbl. O'r sylwadau a gafwyd, nodwyd bod prinder gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg yn y maes hwn. Byddai angen i'r gronfa ddata fod yn ddwyieithog er mwyn i bobl allu gweithio yn eu dewis iaith yn unol â'r gyfraith gyfredol mewn perthynas â'r Gymraeg sy'n nodi y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Nodwyd hefyd gan un ALl ei bod yn bosibl y ceir effaith gadarnhaol ar y Gymraeg os bydd y gronfa ddata yn adnabod plant na fyddent fel arfer yn cael unrhyw gysylltiad â'r iaith mewn cartref cwbl ddi-Gymraeg. Gallai'r ALl gyfeirio teuluoedd at adnoddau perthnasol pe byddent am ddysgu Cymraeg.

## 5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

5.2. Mae ymgynghori ar reoliadau'r gronfa ddata wedi cynnig cipolwg ar yr ystyriaethau ymarferol a'r materion sy'n destun pryder. Caiff yr holl sylwadau a gafwyd eu hystyried yn ofalus cyn llunio'r rheoliadau terfynol.

# Atodiad 1

Cwestiwn 1
Mae'r rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol ddatgelu i awdurdodau lleol (ALlau) y wybodaeth a restrir yn Atodlen 1 i'r rheoliadau. Bydd hyn yn helpu'r ALl i adnabod plant o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd.

i) Ydych chi'n credu bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol ac yn gymesur? Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

ii) Os nad ydych yn credu bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol nac yn gymesur, beth fyddai'r ffordd orau/ffyrdd gorau o gyflawni dyletswydd yr ALl i adnabod plant o oedran ysgol gorfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael addysg addas, yn eich barn chi?

Cwestiwn 2
Ar hyn o bryd, mae ALlau yn gyfrifol am blant yn eu hardal nad ydynt yn ymwybodol ohonynt. O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, mae'n rhaid i ALlau wneud trefniadau i'w galluogi i ganfod (hyd y gellir gwneud hynny) pwy yw'r plant yn eu hardal sydd o oedran ysgol gorfodol ond i) nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, a ii) nad ydynt yn cael addysg addas heblaw yn yr ysgol.

i) A ydych o'r farn y bydd y gronfa ddata yn helpu ALlau, hyd y gellir gwneud hynny, i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd a/neu blant sy'n colli addysg yn eu hardal?

ii) Beth yw'r rheswm dros eich ateb?

Cwestiwn 3
Heb gronfa ddata, pa ddull amgen dibynadwy a chyson a fyddai'n galluogi'r ALl i adnabod plentyn nad yw'n hysbys iddo?

Cwestiwn 4
Mae Rheoliadau Cronfa Ddata Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 drafft yn cynnig y dylai byrddau iechyd lleol ddatgelu'r wybodaeth yn Atodlen 1 i ALlau yn flynyddol. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol? Os nad ydych yn cytuno, pa mor aml y dylid rhoi'r wybodaeth hon i ALlau yn eich barn chi, a pryd fyddai'r adeg fwyaf priodol?

Cwestiwn 5
Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 drafft yn cynnig y dylai ysgolion annibynnol ddatgelu'r wybodaeth yn Atodlen 1 i ALlau yn flynyddol. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol? Os nad ydych yn cytuno, pa mor aml y dylid rhoi'r wybodaeth hon i ALlau yn eich barn chi, a beth fyddai'r adeg fwyaf priodol?

Cwestiwn 6
Beth fyddai goblygiadau technegol a gweinyddol, a goblygiadau o ran adnoddau, cyflwyno datganiad data yn amlach o ran y canlynol: BILlau, Ysgolion Annibynnol, ALlau ac arall?

Cwestiwn 7
Pwy fyddai angen cael mynediad at y gronfa ddata yn yr ALl er mwyn cyflawni ei swyddogaethau?

Cwestiwn 8
A gredwch y gallai unrhyw beth yn y rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac, os felly, beth?

Cwestiwn 9
A yw'r cynnig hwn yn caniatáu i'r ALl gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 436A i wneud trefniadau i adnabod plant yn ei ardal sydd o oedran addysg orfodol ac nad ydynt yn cael addysg addas?

Cwestiwn 10
Er mwyn nodi pa mor effeithiol yw'r gronfa ddata bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i ALlau gyflwyno datganiad blynyddol ar nifer y plant y maent wedi'u hadnabod drwy'r gronfa ddata nad oeddent yn hysbys i ALlau yn flaenorol. Pryd y byddai'n fwyaf priodol a rhesymol gofyn iddynt gyflwyno'r datganiad hwn?

Cwestiwn 11
A fyddai cronfa ddata wirfoddol o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer yn ardal ALl yn helpu ALlau i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 436A, yn eich barn chi?

Cwestiwn 12
Beth fyddai manteision ac anfanteision datgelu'r data gofynnol i boblogi'r gronfa ddata, os o gwbl, yn eich barn chi? Cwblhewch yr adran sy'n berthnasol i chi.

**Byrddau Iechyd Lleol**

Cwestiwn 13
A yw'r protocolau presennol ynglŷn â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fyddai prosesu'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

Cwestiwn 14
A allwch nodi unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd, a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

Cwestiwn 15
A ydych wedi cael unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o ddatgelu/prosesu data?

Cwestiwn 16
Beth yw goblygiadau prosesu a datgelu'r data gofynnol i ALlau i ran adnoddau a materion technegol?

**Ysgolion Annibynnol**

Cwestiwn 17
A allwch nodi unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd, a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

Cwestiwn 18
A ydych wedi cael unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o brosesu?

Cwestiwn 19

Beth yw goblygiadau prosesu a datgelu'r data gofynnol i ALlau i ran adnoddau a materion technegol?

**Awdurdod Lleol**
Cwestiwn 20
A hepgorwyd unrhyw beth yn yr Atodlen o Wybodaeth i'w chynnwys yn y gronfa ddata?

Cwestiwn 21
A yw'r protocolau presennol ynglŷn â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fyddai prosesu'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

Cwestiwn 22
A allwch nodi unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd, a'r risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig?

Cwestiwn 23
A ydych wedi cael unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o brosesu?

Cwestiwn 24
Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r rheoliadau drafft hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gallai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu sut y gallai effeithiau negyddol gael eu lliniaru?

Cwestiwn 25 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau:

i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg
ii) na fyddant yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Cwestiwn 26
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod i ni amdanynt.